| **Cofnod o Gamau Gweithredu’r Grŵp Rheoli Aur - Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2022** | | |
|---|---|---|
| 276 | 03.03.22 | Cymeradwyo bod aelod Staff yn cael mynediad i Benmorfa er mwyn cynorthwyo i sganio Gweithredoedd: hanner diwrnod yr wythnos (boreau Mawrth) yn weithredol o 8/3/22. |
| | | Cytuno i lacio ar nifer y Staff a gaiff fynediad i Ganolfan Rheidol a Phenmorfa er mwyn caniatáu i ddesgiau gael eu clirio a rhoi cychwyn ar y cynigion ynghylch Ffyrdd Newydd o Weithio. |
| | | Cytuno y gellir ailddechrau darparu nofio i ysgolion o 14$^{eg}$ Mawrth 2022 ac y caniateir i bob ysgol gael uchafswm o 30 disgybl ym mhob gwers nofio. |
| | | Cytuno bod rhaid gwneud cais drwy eithriad ynghylch presenoldeb mewn cyfarfod, hyfforddiant a digwyddiad y tu allan i’r sir, a bod y cais yn cael ei gyflwyno i’r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i’w gymeradwyo. |
| 277 | 10.03.22 | Cytuno ar uchafswm diwygiedig y nifer staff ar gyfer Canolfan Rheidol a Phenmorfa. |
| | | Cytuno y bydd y Grŵp Rheoli Aur yn mabwysiadu rôl fonitro ac yn peidio â chymryd camau lliniaru pellach yn awr er bod ffigurau achosion Covid yn cynyddu ar hyn o bryd. |
| | | Cytuno i ganiatáu i rai staff fynd ar gyrsiau statudol yn ddibynnol ar yr amodau yn y cynnig. |
| | | Cytuno â’r cynnig mewn egwyddor (o ran defnyddio gwirfoddolwyr i ymgymryd ag ystod o dasgau yn Amgueddfa Ceredigion), ond dylid oedi ar weithredu hyd nes ein bod heibio’r cynnydd sydyn cyfredol yn yr achosion o Covid-19. |
| | | Cytuno i weithredu canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran ymweld â Chartrefi Gofal, ar wahân i’r rhai sydd dan fesurau rheoli.<br>Dylid oedi’r darpariaethau sy’n berthnasol i breswylwyr sy’n gadael y cartref ar ymweliadau dydd hyd nes bydd y cynnydd sydyn cyfredol mewn achosion yn dechrau dangos tuedd ar i lawr. |
| | | Cytuno â chynigion Cyfnod Addasu Porth Cymorth Cynnar o 10$^{fed}$ Mawrth 2022 hyd at 30$^{ain}$ Ebrill 2022. |
| | | Cytuno y gall aelodau staff gweithredu rheng flaen sy’n gweithio wyneb yn wyneb ymgymryd â’u gwerthusiadau staff blynyddol mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. |
| 278 | 17.03.22 | Dim penderfyniadau |
| 279 | 24.03.22 | Dim penderfyniadau |
| 280 | 31.03.22 | Cytuno y byddai rhaid i aelodau staff sy’n gweithio yn adeiladau’r Cyngor barhau i wisgo masgiau hyd at 25$^{ain}$ Ebrill 2022 gyda’r cafeat eu bod yn gallu eu tynnu os ydynt yn eistedd ar eu pennau eu hunain wrth eu desgiau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytuno bod y neges e-bost wythnosol at aelodau Staff yn cynnwys adran yn cadarnhau'r broses angenrheidiol i weithwyr ei dilyn os oes ganddynt symptomau neu'n profi'n bositif am Covid-19. |
| | | Cytuno â'r cynnig o ddychwelyd yn raddol at wasanaeth llyfrgelloedd llawn erbyn 25ain Ebrill 2022 ymlaen, fel a nodir yn yr asesiadau risg perthnasol. |
| | | Cytuno i ailgyflwyno'r Gwasanaethau Casglu Gwastraff Swmpus a Gwastraff Gardd o'r 25ain o Ebrill 2022. |
| | | Cytuno i ddiddymu'r penderfyniad a wnaed yn gynnar yn y Pandemig a oedd yn rhwystro Staff Porth Gofal rhag gweithio mewn mwy nag un lleoliad (penderfyniad yng Nghyfarfod 28 ar 17eg Ebrill 2020 na ddylai Staff weithio mewn lleoliad gofal plant yn ogystal ag mewn cartref gofal preswyl oherwydd y risg o ledaenu'r clefyd). |